



Gwybodaeth i Ymgeiswyr Rhyngwladol

Nawdd Visa a'r Hawl i Weithio

Mae Met Caerdydd yn brifysgol fyd-eang gyda rhwydwaith helaeth o bartneriaid addysgol rhyngwladol, swyddfeydd, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr ledled y byd. Wedi'n lleoli yng nghanol dinas amrywiol Caerdydd, rydym yn ymfalchïo mewn meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol, gan wasanaethu nid yn unig ein cymunedau lleol yng Nghymru, ond hefyd ledled y byd. Rydym yn estyn gwahoddiad cynnes i ddarpar aelodau staff o bob gwlad a chenedligrwydd, ac yn anelu at ddarparu trosglwyddiad croesawgar i fyw a gweithio yn y DU.

Nawdd Fisa a'r Hawl i Weithio

Os ydych chi'n meddwl y gallai fod angen nawdd fisa arnoch chi i weithio yn y DU, rydym yn argymhell gwirio gofynion [fisa Gweithiwr Crefftus y Swyddfa Gartref](#) cyn gwneud cais. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall y meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys trothwyon cyflog sy'n amrywio yn ôl rôl. Gallwch hefyd ddefnyddio [offeryn cymhwysedd](#) fisa a mewnfudo Llywodraeth y DU i archwilio eich opsiynau.

Pethau allweddol i'w gwybod:

- Gall y Brifysgol noddi swyddi sy'n cyd-fynd â'i [Pholisi Nawdd, Cymeradwyaeth a Chymorth Ariannol ar gyfer VISA a Mewnfudo'r DU \(UKVI\)](#). Nid yw'n bendant y bydd nawdd yn cael ei warantu ar gyfer swyddi sy'n bodloni'r meini prawf a restrir yn y polisi hwn.
- Mae cymhwysedd noddi yn dibynnu ar y swydd ac amgylchiadau unigol.
- Nid yw cael gwahoddiad i gyfweiliad yn gwarantu nawdd. Gwiriwch y gofynion cymhwysedd cyn i chi wneud cais, neu cysylltwch â'n tîm recriwtio i gael cymorth.
- Mae pob cynnig swydd yn amodol ar gael yr hawl gyfreithiol i weithio yn y DU a bodloni gofynion Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) lle mae nawdd yn berthnasol.